Rhowch fywyd i'ch sliperi

Dyluniwch eich sliperi i fod mor unigryw â chi! Drwy liwio, paentio a gludo, gallwch wneud beth bynnag a fynnwch i ddylunio eich pâr personol eich hun!



Taflen Gweithgaredd Celf a Chrefft 1

sheltercymru.org.uk/slippers

S-22.05

Shelter Cymru

Slippers for Shelter Cymru

Addurnwch eich sliperi

Rhowch fywyd i'ch sliperi gyda'r pom pom hwn

Bydd angen y canlynol arnoch:

Pelen o wlân, siswrn a dau gylch cardfwrdd. Gallwch ddefnyddio'r templed isod.



1. Rhowch y ddau dempled cylch at ei gilydd cyn dechrau lapio'r gwlân yn gyfartal o gwmpas y ddau gylch.

2. Dylech barhau i lapio'r gwlân, gan sicrhau y caiff ei rannu'n gyfartal. Po fwyaf o wlân y gallwch ei ychwanegu, y mwyaf trwchus fydd eich pom pom.

3. Nesaf, mae angen i chi dorri'r gwlân rhwng y ddau ddarn o gardfwrdd. Sicrhewch eich bod yn gafael yn dynn yn y gwlân wrth i chi dorri.

4. Cymerwch un darn o wlân tua 20cm o hyd a'i glymu'n dynn rhwng y ddau gylch. Ar ôl diogelu'r cwlwm, gallwch dynnu'r ddau cardfwrdd.

5. Os hoffech, gallwch dorri'r ochrau i'w wneud yn grwn. A dyna ni, rydych wedi gorffen creu pom pom!



Y templed cylch. Awgrymir diamedr o 8cm ar gyfer y cylch allanol, a 2.5cm ar gyfer y cylch mewnol. Po fwyaf yw'r cylch, y mwyaf fydd eich pom pom.

Taflen Gweithgaredd Celf a Chrefft 2

sheltercymru.org.uk/slippers

S-22.05

Shelter Cymru